

## HOWELL, THOMAS (1588 - 1646), esgob Bryste

**Enw:** Thomas Howell  
**Dyddiad geni:** 1588  
**Dyddiad marw:** 1646  
**Rhiant:** Thomas Howell  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** esgob Bryste  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd  
**Awdur:** Thomas Richards

brawd i [James Howell](#), awdur yr *Epistolae*, ewythr i'r James Howell a fu yn ei dro yn weinidog Piwritanaidd yn Sir Gaerfyrddin, ac yn offeiriad yn dal mwy nag un plwyf, ef hefyd yn dad bedydd i [James Owen](#), un o brif arweinwyr Piwritaniaid Cymru ym mlynnyddoedd olaf y 17eg ganrif a blynyddoedd cyntaf y 18fed ganrif. Cyn belled ag y mae Cymru yn myned, cwyd prif ddiddordeb yr esgob o'r cwlwm teuluol hwn. Cwynai rhai ei fod yn dipyn o Biwritan ei hun, ond yr argraff a adewir gan ei amryw ddyrchafiadau ar law Siarl I, yn enwedig ei benodi'n esgob Bryste yn 1644 pan oedd pethau yn edrych yn bur ddu ar ffawd y brenin, a chan y geiriau mawrhaol a arferir amdano gan [David Lloyd](#) a Thomas Fuller, ydyw ei fod yn Eglwyswr gyda'r mwyaf teyrngar (ef oedd yr olaf i'w gysegru yn Lloegr am 16 mlynedd).

### Awdur

Thomas Richards, (1878 - 1962)

### Ffynonellau

*Oxford Dictionary of National Biography*, dan Thomas Howell, James Howell, James Owen  
*A History of Carmarthenshire*, ii, 139, 143, 159

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q7790857](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

